CYLCH CYFATHREBU

Mae'r Cylch Cyfathrebu yn edrych ymlaen at flwyddyn arall o weithgarwch yn ceisio sicrhau bod Eglwys Annibynnol Minny Street yn cyfathrebu â'i haelodau ei hun ac â'r gymdeithas ehangach yng Nghaerdydd, yng Nghymru a'r byd.

Ein hamcanion fel Cylch yw:

- sicrhau bod pedwar rhifyn o'r *Aelod* yn ymddangos yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn, yn adlewyrchu holl ystod gweithgarwch yr Eglwys a bod cydweithio rhwng *yr Aelod* a'r wefan
- sicrhau bod adroddiadau perthnasol am weithgarwch yr Eglwys yn cyrraedd y *Dinesydd* a'r *Tyst* yn rheolaidd
- sicrhau bod y wefan yn parhau i lwyddo drwy ei chadw'n gyfredol a chodi ymwybyddiaeth ohoni ymhlith yr aelodau a'r gynulleidfa ehangach.

Ymhyfrydwn yn ein gwefan a nodwn fod cynnydd sylweddol wedi bod yn nifer y defnyddwyr, yn arbennig dros Mis Awst. Diolch i bawb sy'n cyfrannu'n gyson ac yn sicrhau bod holl ystod gweithgarwch yr eglwys yn cael sylw haeddiannol.

Ers Mis Medi 2011 gallwn droi at y Darlleniadur Dyddiol ar y wefan. Yng ngeiriau'r Gweinidog, "*O ddilyn y darlleniadau, byddwn, erbyn Medi 2012, nid yn unig wedi darllen y rhan helaethaf o'r Beibl ond byddwn hefyd, gobeithio, yn llawer mwy hyddysg yng Ngwirioneddau'r Gair.*" Gallwn hefyd ddarllen am weithgarwch yr Ysgol Sul a *Babimini.*

Mae'n bwysig lledu'r gair am weithgarwch a chymdeithas yr eglwys trwy gyfryngau megis *Y Dinesydd, Y Tyst a Christion*. Gwelwyd erthyglau gan y Gweinidog a chyfranwyr eraill yn y cyhoeddiadau ers mis Medi. Gwelir gwybodaeth gyffredinol am Minny Street yn *Lle Pawb* ar wefan *Golwg360* lle cyfeirir y darllenwyr at wefan Minny Street.

Diweddarwyd Rhagfyr 2011